ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datganiadau Cyllideb Adran 52, 2024-25

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau ar gwblhau rhan 1 adran 52 y datganiad cyllideb ar gyfer 2024-25, yn arbennig o ran y symiau sydd i'w rhoi ymhob colofn o'r ffurflen (gan gynnwys y driniaeth o'r taliadau trothwy ar gyfer yr Athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr ysgolion). Mae Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb)(Cymru) 2002 a gyhoeddwyd gan AALl yn parhau i fod yn berthnasol i Adran 52 y Datganiadau Cyllideb ar gyfer 2024-25.

Mae chwe elfen i'r ffurflen, sef crynodeb gan ysgolion o bob un o'r cyllidebau sy'n cael eu neilltuo i ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig, ac adran femorandwm sy'n ystyried symiau a fydd yn y pen draw yn cael eu neilltuo neu eu dyrannu i'r ysgolion yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae'n rhaid i ddatganiad cyllideb adran 52 gael ei gysoni â ffigur llinell 1 ar ffurflen gyllideb y cyfrif refeniw ar gyfer 2024-25. Er mwyn i hwn fod yn gyson mae'n bwysig nodi bod angen cwblhau'r ffurflen cyfrif refeniw ar sail FRS17. Felly, bydd angen cwblhau rhan 1 o adran 52 hefyd ar y sail hwn.

**Crynodebau gan yr ysgolion**

Y ddwy golofn gyntaf yw enw a rhif yr ysgol. Mae'r rhain wedi eu cwblhau eisoes ar eich ffurflen. **Edrychwch ar y colofnau hyn cyn cwblhau'r ffurflen** a hysbysu Frank Kelly neu Bruce Anderson (e-bost: YCLLL.trosglwyddo@llyw.cymru neu ffonio: 030 0025 (5673 neu 9169) os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Dylid cwblhau'r colofnau sy'n weddill (3 i 9) fel a ganlyn.

Dylid defnyddio **Colofn 3** i gofnodi "c" neu "a" yn erbyn unrhyw ysgol a fydd yn cau neu yn agor yn ystod 2024-25. Pan roddir "c" neu "a" ar y ffurflen, dylid nodi dyddiad y newid yng **Ngholofn 4.**

Dylid defnyddio **Colofn 5** i gofnodi nifer y disgyblion ymhob ysgol, neu nifer y lleoedd yn achos ysgolion arbennig. Ar gyfer ysgolion meithrin, cynradd, canol ac uwchradd, dylai hyn nodi nifer y disgyblion sy'n cyfateb ag amser llawn sydd wedi cofrestru yn yr ysgol, fel a ddefnyddir i benderfynu ar gyllideb pob ysgol trwy fformiwla ariannu ysgolion perthnasol yr awdurdod. Yn achos ysgol sydd ar agor am ran o'r flwyddyn, dylai'r ffigur sy'n cael ei gofnodi yng ngholofn 5 gael ei ostwng i adlewyrchu'r cyfnod y bydd yr ysgol ar agor. Er enghraifft, ar gyfer ysgol sydd ar agor am 7 mis o'r flwyddyn ariannol, dylai nifer y disgyblion gael ei ostwng $^{7}/_{12}$.
Dyddiad y cyfrifiad ar gyfer casglu'r niferoedd hyn at ddibenion datganiadau 2024-25 yw 16 Ionawr 2024.

Dylid defnyddio **Colofn 6** i gofnodi'r gyllideb sy'n cael ei phenderfynu ar gyfer pob ysgol trwy fformiwla ariannu ysgolion perthnasol yr awdurdod. Mae Rheoliad 14 Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004 yn nodi bod yn rhaid i gyfrannau cyllideb gynnwys grant sy'n cael ei dalu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan adran 36 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 - dyma'r swm a arferai gael ei ddarparu trwy gyfrwng grant ELWa o dan adran 36 cyn i'r corff hwnnw gael ei ddileu.

Yn achos ysgol sydd ar agor am ran o'r flwyddyn, dylai'r ffigur sy'n cael ei roi yng ngholofn 6 fod y gyllideb wirioneddol sy'n cael ei phenderfynu ar gyfer yr ysgol. Os yw'r swm ar gyfer taliadau trothwy

i athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr ysgolion yn cael ei gynnwys o fewn y cyfanswm a ddefnyddir i benderfynu ar y cyllidebau trwy fformiwla ariannu ysgolion perthnasol yr awdurdod, dylai'r symiau gael eu cofnodi yn ngholofn 6 adlewyrchu hyn.  Os nad yw hyn yn wir, gweler eitem 14.

Daw'r ffigur yng **Ngholofn 7** o'r ffigur yng ngholofn 6 wedi ei luosi â 1,000 a'i rannu â'r ffigur yng ngholofn 5, gan roi'r swm o arian a ddarperir fesul disgybl ym mhob ysgol feithrin, gynradd, canol ac uwchradd.  Ar gyfer ysgolion arbennig, dyma'r swm o arian fesul lle.

Dylai **Colofn 8** gael ei ddefnyddio i gofnodi'r swm o fewn cyllideb pob ysgol feithrin, cynradd, canol ac uwchradd sy'n cael ei benderfynu trwy ystyried amcangyfrif o'r angen i ddarparu Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).  Mae'r ffigur hwn wedi ei osod fel sero ar gyfer ysgolion arbennig gan y cymerir yn ganiatáol bod yr holl ddarpariaeth ar gyfer y fath ysgolion yn AAA.

Dylid defnyddio **Colofn 9** i gofnodi unrhyw gyllid ychwanegol sy'n cael ei ddyrannu i ysgolion unigol (h.y. lle y mae'r ysgolion yn rheoli sut y caiff yr arian ei wario, ni waeth sut y cyfrifir am yr arian hynny) a lle nad yw'r symiau'n cael eu cynnwys yn y gyllideb fformiwla a gofnodir yng ngholofn 6.
Bydd hyn yn cynnwys dyraniadau o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion i bob ysgol.
Lle nad yw'r ysgolion unigol yn ymwybodol o'r symiau hyn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ond lle y bo'r ysgolion yn ymwybodol y bydd y symiau'n cael eu dyrannu i'r ysgolion yn ystod y flwyddyn, dylid gwneud amcangyfrif wrth rannu'r symiau rhwng ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig, a chofnodi'r symiau perthnasol yn eitem 15 (gweler isod).

**Is-gyfanswm**

Mae eitemau 9.5, 10, 10.5, 11 a 12 yn cyfeirio at yr is-gyfansymiau neu'r cyfartaleddau ar gyfer colofnau 5 i 9 ar gyfer pob sector meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig.  Mae Eitem 13 yn rhoi'r is-gyfansymiau neu'r cyfartaleddau ar gyfer pob ysgol yn seiliedig ar y ffigurau yn eitemau 9.5, 10, 10.5, 11 a 12.

**Eitemau memorandwm** (dylid cofnodi'r rhain hefyd mewn £000)

Dylid defnyddio eitem 14 i gofnodi'r swm o fewn cyllidebau ysgolion unigol sydd heb gael ei ddyrannu eto i gyllidebau ysgolion ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ond a fydd yn cael eu dyrannu'n ddiweddarach yn y flwyddyn.  Mae angen amcangyfrif wrth rannu'r ffigur hwn rhwng ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig.  Os nad yw'r swm ar gyfer taliadau trothwy i athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr ysgolion yn cael ei gynnwys o fewn y gyllideb sy'n cael ei phenderfynu ar gyfer pob ysgol trwy fformiwla ariannu ysgolion perthnasol yr awdurdod, yna dylid cofnodi amcangyfrif o'r ddarpariaeth, wedi ei rannu rhwng ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig fel rhan o eitem 14.

Dylid defnyddio eitem 15 i gofnodi unrhyw arian a ddisgrifir yng ngholofn 9 lle **nad** yw'r ysgolion unigol yn ymwybodol o'r symiau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ond lle y bo'r ysgolion yn ymwybodol y caiff y symiau eu dyrannu yn ystod y flwyddyn.  Mewn achosion o'r fath mae angen amcangyfrif wrth rannu'r arian rhwng ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig.

**Cysylltiadau â ffurflen RA(S52)**

Trwy ddilyn y canllaw uchod, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y ffigurau y dylid eu cofnodi ar ran 1 datganiad cyllidebau adran 52 a llinell 1 o'r ffurflen Cyfrif Refeniw ar gyfer 2024-25 fel a ganlyn:

**Gwariant**

Ar gyfer pob ysgol feithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig, dylid dwyn ymlaen swm y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofnau 6 a 9 a dylid dwyn ymlaen linellau 14 ac 15 i golofnau 0.1, 1, 3.5, 2 a 3 o linell 1 ffurflen RA(S52) yn y drefn honno.

**Grantiau**

Dylai pob grant sydd wedi neu i gael eu datganoli i ysgolion gael eu dwyn ymlaen i linell 1 colofn 7 ffurflen RA(S52) ar gyfer pob sector. Mae'r grantiau hyn yn cynnwys grantiau sy'n cael eu neilluto i ysgolion trwy fformiwla ariannu ysgolion perthnasol yr awdurdod (sy'n cael eu cynnwys yng ngholofn 6 Adran 52). Dylai hefyd gynnwys symiau nad ydynt yn Gyllidebau Ysgolion Unigol sy'n cael eu datganoli i ysgolion (sy'n cael eu cynnwys yng ngholofn 9 Adran 52) a symiau sydd eto i gael eu datganoli (sy'n cael eu cynnwys yn eitemau 14 ac 15 o Adran 52).

**Bydd y data a ddaw i law yn cael ei ddilysu i sicrhau bod hyn wedi ei wneud.**

Uned Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol,
Llywodraeth Cymru